



<b>CYFARFOD</b>	Cyd-Bwyllgor GwE
<b>DYDDIAD</b>	15 Medi 2020
<b>TEITL</b>	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ac Archwiliad perthnasol
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none"><li>• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;</li><li>• Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;</li><li>• Llythyr Cynrychiolaeth.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn a nodi'r adroddiad ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2019/20, ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth ar ran y Cyd-Bwyllgor.
<b>AWDUR</b>	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i gyfarfod 15 Gorffennaf o Gyd-Bwyllgor GwE:

- 1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.
- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- 1.6 Roedd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## **2. CYFRIFON 2019/20**

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2019/20 i'r cyfarfod 20 Mai 2020 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro", â'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2019/20 (yn amodol ar archwiliad) ar ffurf safonol statudol i'r cyfarfod 15 Gorffennaf 2020.

## **3. ARCHWILIAD**

- 3.1 Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Deloitte, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte. Gweler bod paragraff 8 yn nodi "Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol".
- 3.2 Yn dilyn trafodaeth gyda'r archwilwyr, mae cymal 5.7.7 wedi cael ei ychwanegu i'r Datganiad Lywodraethu Blynyddol cyflwynwyd gerbron y Cyd-Bwyllgor ar y 15fed o Orffennaf.

## **4. CYFRIFON TERFYNOL 2019/20**

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2019/20. Mae'r materion â godwyd fel rhan o'r archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' cyflwynwyd gan Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## **5. ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau, sef –**

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 (yn dilyn archwiliad)

## **6. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH**

**Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), arwyddo'n electronig y Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru) wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.**

## **7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.